Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarfod: | Bwrdd Plismona | |
| Lleoliad: | Ystafell Gynadledda SCHTh | |
| Dyddiad: | 28 Medi 2016 | |
| Amser: | 10:10 – 11:10 | |

**CRYNODEB CYHOEDDUS**

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (PG)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Arol. Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS)<br>PC Jo Thompson, Swyddog Staff Cynorthwyol (JT)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 16/09/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2048** | **PG i ddarparu ymateb dros dro i CHTh Gwent mewn perthynas â'r cynnig o ran rhaglen dargyfeirio a chynnwys ieuenctid Cymru gyfan** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2049** | **MMS i roi enwau'r swyddogion a oedd yn gysylltiedig â'r euogfarn llofruddiaeth ddiweddar i'r CHTh** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2050** | **Gofyn am gyfarfod gyda'r Gweinidog Gwladol dros Blismona** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2051** | **EH i roi briffiad i'r CHTh ar fformiwla ariannu'r heddlu** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2052** | **CHTh i ddrafftio llythyr i ASau, ACau ac Arweinwyr Cyngor yn tynnu sylw at bryderon ynghylch y fformiwla ariannu a'u gwahodd i friffiad fel mater o frys** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2053** | **CHTh i godi'r mater o dreth prentisiaeth â'r Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Cymunedau a Phlant** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2054** | **Rheolwr Ariannu Allanol i symud ymlaen â chyfle i gyflwyno cynllun prentisiaeth yn SCHTh** | **Cwblhawyd** |

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi a materion yn codi**

Gydag un mân ddiwygiad, cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

Penderfyniad PB T2 07 – Dywedodd y CHTh ei fod wedi cael ar ddeall nad oedd HDP wedi cyfrannu i'r cynllun cenedlaethol Ugly Mugs ers dwy flynedd. Cafwyd trafodaeth ynglŷn

â'r cais ar gyfer cyfraniad eleni, gyda'r PG yn awgrymu y byddai'n ddoeth sicrhau'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Cytunodd yr aelodau y dylai'r penderfyniad sefyll, ac y dylid gwneud cyfraniad o £3000 o leiaf.

PB 2043 – Achos busnes arian Deddf Elw Troseddau. Cytunwyd i ohirio hyn tan y cyfarfod nesaf.

PB 2044 – Adolygiad o deledu cylch cyfyng. Roedd y CHTh wedi derbyn diweddariad gan y PGC ynglŷn â'r mater, a byddai'r PSA yn trafod y cyllid gyda'r PGC ar ôl y cyfarfod. Pwysleisiodd y CHTh yr angen ar gyfer symud y prosiect ymlaen a gofynnodd am ddiweddariad ddechrau Rhagfyr.

PB 2045 – uwch-gynhadledd cynllunio ariannol. Roedd SCHTh wrthi'n cytuno ar ddyddiad ar gyfer dechrau mis Rhagfyr.

PB 2046 – rhaglen dargyfeirio a chynnwys ieuenctid Cymru gyfan. Cadarnhaodd y CHTh ei fod wedi derbyn diweddariad gan yr Heddlu cyn y cyfarfod. Byddai'r gwerthusiad o raglen HDP yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Hydref. Ar ôl hynny, byddai'r PG mewn sefyllfa i roi argymhelliad i'r CHTh.

PB 2050 – cyfarfod gyda'r Gweinidog Gwladol dros Blismona. Cadarnhaodd CM bod cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 23 Tachwedd.

PB 2051 – gwybodaeth ynghylch fformiwla ariannu'r heddlu. Cadarnhaodd y CHTh ei fod wedi derbyn gwybodaeth gan y CC. Dywedodd y PSA bod y CC wrthi'n datblygu papur briffio a oedd yn cynnwys opsiynau ar gyfer gweithredu'r fformiwla newydd. Byddai hyn yn cael ei ddarparu cyn y cyfarfod gyda'r Gweinidog.

PB 2052 – llythyr at Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad ac Arweinwyr Cyngor yn tynnu sylw at bryderon ynghylch ariannu fformiwla. Dywedodd CM bod llythyr wedi'i anfon yn eu gwahodd i'r cyfarfod ar 14 Hydref. Byddai trefniadau amgen yn cael eu gwneud gyda'r rhai sy'n methu â bod yn bresennol. Cafwyd trafodaeth ynghylch fformiwla ariannu'r heddlu, gyda'r CHTh yn dweud y byddai CHTh Gogledd Cymru'n cynrychioli pob CHTh yng Nghymru ar y grŵp aur cenedlaethol gyda Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Awgrymodd y CHTh y dylai ef, y PSA a'r CC gwrdd â ChHTh Gogledd Cymru er mwyn cyflwyno pryderon HDP. Roedd y PSA yn ystyried y byddai'n fuddiol trafod pryderon gyda heddluoedd gwledig tebyg yn Lloegr. Cytunodd y PG, gan awgrymu Gogledd Swydd Efrog, a Dyfnaint a Chernyw. Dywedodd y CHTh y byddai'r mater yn cael ei drafod yn y Grŵp Plismona Cymru Gyfan fis nesaf.

**Cam Gweithredu: CHTh, PSA a CC i gwrdd â CHTh Gogledd Cymru i drafod fformiwla ariannu'r heddlu**

PB 2054 – cynllun prentisiaeth. Cadarnhaodd y CHTh bod SCHTh yn symud y mater hwn ymlaen, ac ystyriodd y byddai'n werth chweil ymchwilio i'r cyfleoedd ar gyfer yr Heddlu.

**Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Cadarnhaodd y PG bod y statws sefydliadol yn parhau'n sefydlog, gyda 7 unigolyn wedi'u hatal o'r gwaith ar hyn o bryd.

Disgwyliwyd y byddai 21 unigolyn a oedd yn gysylltiedig â thwyll cyffuriau ar raddfa fawr yn cael eu dedfrydu ddydd Gwener. Soniodd y PG am y gwrthdrawiad awyren ysgafn yn Llanfair-ym-Muallt, a bod swyddog yn Llanelli wedi apelio am dystion i ladrad drwy gyfres o drydarau yn yr iaith Bwyleg ac wedi derbyn nifer o ymatebion.

**Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Dywedodd y CHTh y byddai'r gwrandawiad cadarnhau mewn perthynas â'r ymgeisydd o ddewis ar gyfer Prif Gwnstabl yn cael ei gynnal ddydd Gwener 30 Medi. Roedd y tîm cyfathrebu corfforaethol yn paratoi cyhoeddiadau i'r wasg i'w rhyddhau ar ôl y gwrandawiad.

Roedd y CHTh wedi mynychu Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol yr Heddlu yn Llundain ddydd Sul 25 Medi, ac roedd e'n edrych ymlaen at weld y digwyddiad yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd flwyddyn nesaf. Dywedodd y PG ei fod hefyd wedi bod yn bresennol, ac roedd y ddau'n ystyried y digwyddiad yn un arbennig.

**Diweddariad**

***Adolygiad o'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus***

Esboniodd CM bod oedi o ganlyniad i faterion staffio, ond sicrhaodd bod adnoddau digonol gan y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus erbyn hyn a bod yr ôl-groniad o ran achosion yn cael ei drin gan bwyll. Dywedodd CM bod gwaith yn digwydd, ac y byddai adroddiad gyda chynnig ar gyfer dyfodol y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus yn cael ei gyflwyno ganol Tachwedd er mwyn gwneud penderfyniad cyn bod cytundebau aelodau staff y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus yn dod i ben ar 31 Rhagfyr.

***Adolygiad o'r defnydd o'r Cynllun Oedolion Priodol***

Nododd y CHTh yr adroddiad a ddarparwyd gan y Cyfarwyddwr Comisiynu. Nodwyd bod £44,000 wedi'i wario yn y chwarter cyntaf allan o £90,000 a oedd wedi'i bennu ar gyfer y flwyddyn, gan arwain at y gwariant amcanol yn codi i £177,000. Gofynnodd y CHTh am eglurhad ynglŷn â'r mater. Dywedodd y PG bod angen arwain y prosiect yn weithredol yn hytrach nag yn ariannol. Cynigiodd y PG ei fod yn ystyried y data a gyflwynir, yn edrych ar yr anghenion gweithredol, a sut y mae Oedolion Priodol yn cael ei gyflwyno ar hyn o

bryd. Roedd y PG yn bwriadu dychwelyd gydag argymhelliad o ran pa un ai a ddylai gael ei gomisiynu, neu'n gost Heddlu.

**Cam gweithredu: Yr Heddlu i gyflwyno ymateb i ystyriaethau a godwyd yn y papur Oedolion Priodol yn y cyfarfod nesaf**

**Unrhyw Fusnes Arall**

***Gwobrwyo tendr sengl – Cytundeb cynnal storio a gweinydd IBM***

Yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, cyflwynodd y CA yr adroddiad ar gyfer cymeradwyaeth y PSA. Cymeradwyodd y PSA estyn y cytundeb am flwyddyn.

***Hysbysiad am newidiadau gradd***

Nododd y CHTh yr adroddiad a gyflwynwyd ar gyfer ystyriaeth yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. Rhoddodd y CA drosolwg o'r papur, a chafwyd trafodaeth. Cytunwyd y byddai trafodaeth bellach yn cael ei chynnal y tu allan i'r cyfarfod.

**Cam gweithredu: CHTh, PG a CM i drafod materion AD ar ôl y cyfarfod**

***Adroddiad Stopio a Chwilio***

Cododd y CHTh adroddiad diweddar a oedd yn nodi bod HDP yn un o 11 heddlu a oedd yn bodloni meini prawf archwilio PEEL ar y defnydd gorau o'r cynllun Stopio a Chwilio. Awgrymodd y CHTh y dylid hyrwyddo'r newydd da, a chytunodd y PG i hyn.

***Swydd DBG***

Holodd y CHTh ynghylch statws proses recriwtio DBG. Cytunodd y CA i roi amserlen arfaethedig i'r CHTh.

***Systemau rheoli cofnodion***

Dywedodd MMS ei fod wedi'i dasgio i edrych ar systemau rheoli cofnodion perthnasol, gan fwriadu gwahodd darparwyr posibl i roi cyflwyniadau i uwch swyddogion a'r CHTh.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 28/09/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2055** | **CHTh, PSA a CC i gwrdd â CHTh Gogledd Cymru i drafod fformiwla ariannu'r heddlu** | **PSA** |
| **PB 2056** | **Yr Heddlu i gyflwyno ymateb i ystyriaethau a godwyd yn y papur Oedolion Priodol yn y cyfarfod nesaf** | **PG/CA** |
| **PB 2057** | **CHTh, PG a CM i drafod materion AD ar ôl y cyfarfod** | **CM** |
| **PB 2058** | **Yr Heddlu i hyrwyddo llwyddiant cydymffurfiaeth â'r cynllun Stopio a Chwilio** | **Cyfathrebu Corfforaethol** |
| **PB 2059** | **CA i rannu amserlenni arfaethedig ar gyfer y broses penodi DBG â'r CHTh** | **CA** |